GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.
DILYNWCH Y COD TEITHIO.
CYNLLUN GWERS CYFNOD SYLFAEN

Cyflwyniad i Athrawon

Mae hawl gan blant a phobl ifanc i deithio'n ddiogel. Mae hawl hefyd gan y rhai sy'n teithio gyda hwy neu wrth eu hymyl i deithio'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda wrth deithio'n ôl a blaen i'r ysgol neu'r coleg, er bod ymddygiad gwael ac aflonyddgar yn gallu bod yn broblem. Mae hyn yn fygythiad gwirioneddol i ddiogelwch a gall y canlyniadau fod yn drasig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n benderfynol o gefnogi awdurdodau lleol, gweithredwyr, gyrwyr ac ysgolion sy'n gorfod delio ag ymddygiad gwael ac aflonyddgar. Dyna pam mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r ***Cod Teithio.*** Bwriad y Cod Teithio yw gwella diogelwch ar gludiant ysgol trwy fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cod Teithio'n hyrwyddo teithio diogel i bob dysgwr, trwy osod y safonau ymddygiad sydd eu hangen. Roedd plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cod Teithio a chynhaliwyd gweithdai ledled Cymru i gasglu eu syniadau, eu mewnbwn a'u hadborth.

Mae cosbau yn rhan o'r Cod Teithio. Os na ddilynir y Cod Teithio, gall awdurdodau lleol, ysgolion neu sefydliadau addysg eraill gymryd camau yn erbyn plant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys colli'r hawl i gael cludiant i'r ysgol am gyfnod a'u gwahardd o'r ysgol yn y pen draw.

Fel ymarferydd gallwch chwarae rôl bwysig, gan dynnu sylw plant a phobl ifanc at eu hawliau, ymddygiad derbyniol a chanlyniadau ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP). O ganlyniad, wrth addysgu am hawliau, mae angen adlewyrchu bod hawliau'n gyffredinol a diymwad ac nad ydynt yn gysylltiedig ag, nac yn dibynnu ar ymddwyn mewn ffordd arbennig. Mae hefyd yn bwysig nodi pan ydych yn derbyn hawl i'ch hun eich bod hefyd yn ei dderbyn i eraill ac na ddylech ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfyngu ar fwynhad eraill o'u hawliau.

Mae gwybodaeth ar **http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/?lang=cy**
a hefyd ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Bwriad y cynllun gwers hwn yw eich helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r Cod Teithio. Diolch am eich cefnogaeth gyda'r gwaith pwysig hwn.

Am fwy o wybodaeth neu i gyfeirio cydweithwyr at y Cod, ewch i **http://www.codteithio.org**

CYNLLUN GWERS CYFNOD SYLFAEN

Cefndir

Mae'r cynllun gwers hwn yn cyflwyno Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan. Nid yw'r cynllun gwers yn dilyn patrwm 'cynllun' arferol. Yn hytrach mae'r cynllun gwers yn awgrymu posibiliadau i helpu ymarferwyr i greu profiadau dysgu sy'n galluogi'r plant i fod yn greadigol a dychmygus wrth iddynt archwilio'r byd o'u cwmpas, a hwy eu hunain. Mae pwyslais y cynllun ar ddysgu trwy arbrofi.

I helpu'r ymarferydd, mae'r cynllun yn darparu amcanion dysgu, gweithgareddau a awgrymir ac adnoddau cysylltiedig. Yr ymarferwyr sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut mae'r rhain yn addas ar gyfer eu dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen.

Gallai'r gwersi hefyd gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP), yn arbennig Erthyglau 2, 3, 6, 13, 28, 29 a 42. Gellir cael adnoddau i helpu i addysgu'r CCUHP ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Adnoddau

- *Taith Aisha i'r Ysgol,* ar gael o wefan y Cod Teithio: **http://www.codteithio.org/teachers.html.** Mae stori Aisha ar gael fel set o sleidiau PowerPoint, y gellir eu dangos trwy daflunydd digidol. Mae stori Aisha hefyd ar gael fel cyfres o bosteri, y gellir eu hargraffu. Mae stori Aisha hefyd yng nghynllun gwasanaeth y Cyfnod Sylfaen sy'n golygu y gall ymarferwyr ddefnyddio'r gwasanaeth fel cyflwyniad neu i gadarnhau eu dysgu.
- Bydd adnoddau ysgol presennol hefyd yn ddefnyddiol. Er enghraifft, mae nifer o ysgolion yn gyfarwydd â Magi'n Mynd Am Dro gan Pat Hutchings, ac yn gwneud defnydd da ohoni. Yn y stori mae Magi'r Iâr yn cwblhau ei thaith yn ddiogel er gwaethaf y llwynog. Bydd dillad, offer ac adnoddau sydd ar gael mewn lleoliadau dysgu yn yr awyr agored hefyd yn ddefnyddiol.
- Mae copïau o'r Cod Teithio ar gael i rieni a gofalwyr
- Gellir cael adnoddau CCUHP, i ddysgu am hawliau, ar safle Gwneud Pethau'n Iawn ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Amcanion Dysgu

Gallai dysgu am deithio diogel a chyfrifol i'r ysgol gynnwys nifer o Feysydd Dysgu o fewn Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru. Dyma rai meysydd arbennig o berthnasol :

1. Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
2. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

1. Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Mae'r Maes Dysgu hwn yn canolbwyntio ar blant yn dysgu amdanynt eu hunain, a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion. Bydd dysgu am deithio'n ddiogel a chyfrifol i'r ysgol yn rhoi'r cyfleoedd dysgu canlynol yn y Cyfnod Sylfaen:

- Dylid annog plant i ystyried anghenion eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau gofalgar a rhannu
- Mae angen i blant hefyd ddatblygu parch at reolau ac eiddo
- Wrth i blant ddatblygu byddant yn gallu adnabod materion sydd o bryder cyffredin iddynt eu hunain ac i eraill, megis beth sy'n deg ac annheg.
- Mae plant yn darganfod rhai o'r ffiniau ar gyfer ymddygiad (beth a ganiateir/na chaniateir iddynt ei wneud) a beth sy'n dderbyniol trwy arsylwi ar ymddygiad ac agweddau cadarnhaol pobl eraill.

- Yn y pen draw, y nod yw bod plant yn gallu cyfleu beth sy'n dda ac yn ddrwg, yn gywir ac yn anghywir, yn deg ac yn annheg, yn ofalgar ac yn anystyriol eu hunain ac arfer hunan reolaeth.
- Bydd angen i blant ddysgu sut i gadw eu corff yn ddiogel ac iach. Dylai eu rhaglen ddysgu gynnwys gwybodaeth am:
- yr hyn i'w wneud neu at bwy i fynd os ydynt yn teimlo'n anniogel neu os oes angen help arnynt
- diogelwch y ffordd, diogelwch dŵr a pheryglon yn y cartref

2. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Yn y Maes Dysgu hwn rhoddir profiadau i blant fydd yn cynyddu eu chwilfrydedd ynglŷn â'r byd o'u cwmpas. Bydd dysgu am deithio'n ddiogel a chyfrifol i'r ysgol yn rhoi'r cyfleoedd dysgu canlynol i blant yn y Cyfnod Sylfaen:

- Dysgu lle mae eu hardal
- Dysgu am bellter a sut i ddilyn cyfarwyddiadau a llwybrau
- Defnyddio a gwneud mapiau syml, dod o hyd i lefydd a'r cysylltiad rhwng llefydd
- Gosod digwyddiadau, arferion a newidiadau mewn trefn olynol, e.e. mewn taith i'r ysgol, mewn stori
- Adnabod bod rhesymau am rai gweithredoedd, a chanlyniadau yn eu sgil

Cyd-destun ar gyfer y Dysgu

Darllenwch *Taith Aisha i'r Ysgol* gan ddefnyddio'r stori a'r lluniau i dynnu sylw at bwyntiau dysgu allweddol.
Er enghraifft :

- Paratoi at fynd i'r ysgol, teithio'n ddiogel gydag oedolyn cyfrifol, gafael yn yr oedolyn, mae Aisha'n cymryd cyfrifoldeb am ei thaith
- Nid yw camu i'r ffordd yn ddiogel, nid yw gyrrwr sy'n parcio ar y palmant yn gyfrifol, mae gan Aisha hawl i daith ddiogel, mae siarad ag oedolyn cyfrifol yn sicrhau diogelwch
- Mae gan blant hawl i deimlo'n ddiogel, a hawl i beidio â chael neb yn pigo arnynt neu eu bwlio. Mae angen i blant ofyn i oedolyn cyfrifol os oes angen.
- Beth wnaeth taith Aisha i'r ysgol yn un bleserus a diogel, beth wnaeth Aisha i wneud y daith yn well iddi ei hun ac i Mark?

Gallai stori Aisha ysgogi plant i:

- Actio taith Aisha i'r ysgol
- Trafod a chynllunio llwybr i'r ysgol gyda'i gilydd. Gallai plant farcio'r llwybr gyda sialc, conau ac offer
- Actio eu taith eu hunain i'r ysgol
- Chwarae rôl fel rhieni / gofalwyr sy'n mynd â phlant i'r ysgol
- Trafod yr hyn maen nhw'n ei weld ac yn ei wneud wrth deithio i'r ysgol
- Trafod yr hyn a allai ddigwydd pe na fydden nhw'n gwneud yr hyn a wnaeth Aisha
- Trafod rheolau ar gyfer teithio'n ddiogel a'r hyn a allai ddigwydd os na ddilynir y rhain.
- Chwarae a dysgu yn yr awyr agored
- Mewn amgylchedd diogel a dan oruchwyliaeth, dysgu sut i ddal dwylo ar y palmant
- Gwisgo dillad llachar a dysgu sut mae dillad llachar yn eu gwneud yn haws eu gweld
- Tynnu lluniau o daith Aisha neu eu taith hwy i'r ysgol
- Dysgu beth i'w ddweud wrth oedolion cyfrifol os ydyn nhw'n bryderus
- Dysgu a defnyddio geirfa teithio (ffordd, palmant, cyflym, araf, hir, byr ac ati.)
- Tynnu ffotograffau digidol o'r teithiau yn eu chwarae a thrafod y rhain yn ddiweddarach

Camau Nesaf

- Egluro wrth rieni / gofalwyr bod plant wedi bod yn dysgu am deithio'n ddiogel a chyfrifol i'r ysgol
- Gellid dosbarthu copïau o'r Cod Teithio i rieni / gofalwyr.